| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **7 MAI 2009** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |
| **GWEITHREDIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor.** |

---

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Adran 15, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau yn adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor.

1.2 Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 35 |
| Annibynnol | 18 |
| Llais Gwynedd | 13 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 5 |
| Llafur | 4 |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma’r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglyn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grwp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â’r nifer o’r holl seddau sydd gan aelodau’r grwp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o’r seddau ar y pwyllgor â’r nifer o seddau sydd gan aelodau’r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â

phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei wneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

2.4 Mae'r Cydbwyllgor Gwastraff Môn Arfon erbyn hyn wedi dod i ben ac felly mae lleihad yn nifer y seddau ar bwyllgorau'r Cyngor.

2.5 Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i newid y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol yn Brif Bwyllgor Craffu ac felly bydd angen edrych ar ddyrannu'r seddau ar y pwyllgor.

2.6 Os cytunir i newid dyraniad y seddau byddai hyn yn golygu bod y Grŵp Annibynnol yn colli sedd i'r Grŵp Llafur ar y pwyllgor hwn; a'r Grŵp Llafur yn colli sedd i'r Grŵp Annibynnol ar Bwyllgor Craffu Datblygu. (gweler **Atodiad A**)

2.7 Cyfarfu Grŵp Busnes y Cyngor ar 20 Ebrill, 2009, a chytunwyd i argymell y newidiadau i'r pwyllgorau fel y noder yn 2.5 a 2.6 uchod.

## 3. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

3.1 Yn unol â rheol 6.2 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen)(Cymru) 2007 ni all aelod o'r un grŵp gwleidyddol â chadeirydd y Bwrdd fod yn gadeirydd nac yn is-gadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu.

3.2 Ar hyn o bryd mae cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol yn aelod o Grŵp Llais Gwynedd gyda'r is-gadeirydd yn aelod o Grŵp Plaid Cymru tra bod cadeirydd y Pwyllgor Craffu Datblygu yn aelod o'r Grŵp Annibynnol gyda'r is-gadeirydd yn aelod o'r Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol.

3.3 Os penderfynir newid y Pwyllgor Adnoddau a Chorfforaethol yn Brif Bwyllgor Craffu bydd angen i'r is-gadair ddod o grŵp heblaw Plaid Cymru ac o'r herwydd argymhellir cyfnewid is-gadeiryddiaethau y Pwyllgorau Craffu Datblygu ac Adnoddau a Chorfforaethol. (gweler **Atodiad B**)

## 4. GWEITHREDIAD

4.1 Gofynnir i'r Cyngor:-

i. fabwysiadu'r dyraniad a amlinellir yn Atodiad A;
ii. gyfnewid is-gadair y Pwyllgor Craffu Datblygu a Phwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol a mabwysiadu'r dyraniad cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau a amlinellir yn Atodiad B.

**ATODIAD A**

## BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Adnoddau a Chorfforaethol (Prif Bwyllgor Craffu) | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |

## PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu | 7 | 4 | 3 | 1 | |
| Amgylchedd | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Plant a Phobl Ifanc | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Gofal | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |

## PWYLLGORAU ERAILL

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio | 7 | 4 | 3 | | 1 |
| Cwynion | 4 | 2 | 1 | | |
| Pensiynau | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Cynllunio Canolog | 5 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Trwyddedu Canolog | 5 | 3 | 2 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Adnoddau Dynol | 6 | 2 | 2 | 1 | |
| CYSAG | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Cydbwyllgor Lleol | 5 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Cydbwyllgor AAA | 3 | 2 | 1 | | 1 |
| Elusennau | 4 | 2 | 2 | 1 | |
| Iaith | 3 | 2 | 2 | | |
| Trethi Annomestig | 3 | 1 | 1 | | |
| Adolygu Tenantiaeth Gyflwyniadol | 2 | 1 | | | |

**Atodiad B**

**Dyrannu Cadeiryddiaethau ac Is-gadeiryddiaethau 2009**

**Cadeirydd y Cyngor:**
**Is-gadeirydd y Cyngor:**

| | **Pwyllgor** | **Cadeirydd** | **Is-gadeirydd** |
|---|---|---|---|
| 1 | Bwrdd y Cyngor<br>Council Board | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| 2 | Adnoddau a Chorfforaethol<br>(Prif Bwyllgor Craffu) | **Llais Gwynedd** | **Democratiaid Rhyddfrydol** |
| 3 | Plant a Phobl Ifanc | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 4 | Amgylchedd | **Plaid Cymru** | **Democratiaid Rhyddfrydol** |
| 5 | Gofal | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| 6 | Datblygu | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| 7 | Archwilio | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| 8 | Cwynion | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| 9 | Cynllunio Canolog | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 10 | Trwyddedu Canolog | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 11 | Pensiynau | **Annibynnol** | **Llafur** |
| 12 | Adnoddau Dynol | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 13 | Apelau Cyflogaeth | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 14 | Ardal Arfon | **Llafur** | **Plaid Cymru** |
| 15 | Ardal Dwyfor | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| 16 | Ardal Meirionnydd | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |

| | |
|---|---|
| **MEETING** | **COUNCIL** |
| **DATE** | **7 MAY 2009** |
| **TITLE OF THE REPORT** | **POLITICAL BALANCE** |
| **PURPOSE OF THE REPORT** | **To Review the Political Balance of the Council.** |
| **REPORT BY** | **Head of Democracy and Legal** |
| **ACTION** | **To Apportion Seats on the Council's Committees.** |

**BACKGROUND**

1.1 In accordance with the provisions of the Local Government and Housing Act 1989, the Council has to ensure that the constitution of its committees and sub-committees reflect the strength of the various political groups represented on the Council.

1.2 The political balance of the Council is as follows:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 35 |
| Independent | 18 |
| Llais Gwynedd | 13 |
| Liberal Democrats | 5 |
| Labour | 4 |

## 2. ALLOCATION OF SEATS ON COMMITTEES

2.1 To remind members, the Local Government and Housing Act 1989 sets out four main rules on the allocation of seats:-

2.2 (a) Not all the seats on a committee may be allocated to the same political group;

(b) The majority of seats on the committee must be allocated to the political group where the number of persons within the group forms a majority of Council members;

(c) subject to (a) and (b) above, the total number of seats on the ordinary committees allocated to each political group will equal that group's total number of seats on the Council;

(ch) subject to (a), (b) and (c) above, the number of seats on a committee allocated to each political group will be the same proportion of seats on the committee as the number of seats that members of that group hold on the Council.

2.3 In order to ensure that these rules are adhered to, the Council, in the past has dealt with committees in different blocks. This makes it easier to ensure that rule (c) in paragraph 2.2 above is adhered to.

2.4 With the Môn Arfon Joint Waste Committee coming to an end there is a decrease in the number of seats on the Council committees.

2.5 Consideration is also being given to change the Resources and Corporate Scrutiny Committee to be the Principal Scrutiny Committee and therefore there is a need to look at the allocation of seats on the said committee.

2.6 If it is agreed to change the allocation of seats, the Independent Group will lose a seat to the Labour Group on the said committee, and the Labour Group will lose a seat to the Independent Group on the Development Scrutiny Committee. (see **Appendix A**)

2.7 The Council Business Group met on 20 April, 2009 and agreed to recommend the changes to the committees as noted in 2.5 and 2.6 above.

**3. CHAIRPERSONS AND VICE CHAIRPERSONS**

3.1 In accordance with rule 6.2 of the Local Authorities (Alternative Arrangements)(Wales) Regulations 2007 a member of the same political group as the chairperson of the Board may not be chairperson of the Principal Scrutiny Committee.

3.2 At present the chairperson of the Resources and Corporate Scrutiny Committee is a member of the Llais Gwynedd Group and the vice chairperson a member of the Plaid Cymru Group, while the chairperson of the Development Scrutiny Committee is a member of the Independent Group and the vice chairperson a member of the Liberal Democrats Group.

3.3 If a decision is taken to change the Resources and Corporate Scrutiny Committee to be the Principal Scrutiny Committee the vice chairperson will need to be a member of a group other than Plaid Cymru and as such exchanging the vice chairpersonships of the Development and Resources and Corporate Scrutiny Committees is recommended.
(see **Appendix B**)

**4. ACTION**

4.1 The Council is requested to
- i. adopt the allocation outlined in Appendix A;
- ii. exchange the vice chairperson of the Development and Resources and Corporate Scrutiny Committees and adopt the allocation of chairpersonships and vice-chairpersonships as outlined in Appendix B

**APPENDIX A**

## COUNCIL BOARD AND PRINCIPAL SCRUTINY COMMITTEE

| | Plaid Cymru | Independent | Llais Gwynedd | Liberal Democrats | Labour |
|---|---|---|---|---|---|
| Council Board | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Resources and Corporate (Principal Scrutiny Committee) | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |

## OTHER SCRUTINY COMMITTEES

| | Plaid Cymru | Independent | Llais Gwynedd | Liberal Democrats | Labour |
|---|---|---|---|---|---|
| Development | 7 | 4 | 3 | 1 | |
| Environment | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Children and Young People | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Care | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |

## OTHER COMMITTEES

| | Plaid Cymru | Independent | Llais Gwynedd | Liberal Democrats | Labour |
|---|---|---|---|---|---|
| Audit | 7 | 4 | 3 | | 1 |
| Complaints | 4 | 2 | 1 | | |
| Pensions | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Cenrtal Planning | 5 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Central Licensing | 5 | 3 | 2 | 1 | |
| Employment Appeals | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Human Resources | 6 | 2 | 2 | 1 | |
| SACRE | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Local Joint Committee | 5 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Special Education Joint Committee | 3 | 2 | 1 | | 1 |
| Charities | 4 | 2 | 2 | 1 | |
| Language | 3 | 2 | 2 | | |
| Non Domestic Taxes | 3 | 1 | 1 | | |
| Introductory Tenancy | 2 | 1 | | | |

**Appendix B**

**Apportionment of Chairpersonships and Vice-chairpersonships 2009**

**Chairperson of the Council:**
**Vice-chairperson of the Council:**

| | Committee | Chairperson | Vice-chairperson |
|---|---|---|---|
| 1 | Council Board | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| 2 | Resources and Corporate (Principal Scrutiny Committee) | **Llais Gwynedd** | **Liberal Democrats** |
| 3 | Children and Young People | **Plaid Cymru** | **Independent** |
| 4 | Environment | **Plaid Cymru** | **Liberal Democrats** |
| 5 | Care | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| 6 | Development | **Independent** | **Plaid Cymru** |
| 7 | Audit | **Independent** | **Plaid Cymru** |
| 8 | Complaints | **Independent** | **Plaid Cymru** |
| 9 | Central Planning | **Plaid Cymru** | **Independent** |
| 10 | Central Licensing | **Plaid Cymru** | **Independent** |
| 11 | Pensions | **Independent** | **Labour** |
| 12 | Human Resources | **Plaid Cymru** | **Independent** |
| 13 | Employment Appeals | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 14 | Arfon Area | **Labour** | **Plaid Cymru** |
| 15 | Dwyfor Area | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| 16 | Meirionnydd Area | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |